Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend County Borough Council

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

**Y Gyfarwyddiaeth Addysg,**
**Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc**
**Llinell uniongyrchol:** 01656 642622
**Gofynnwch am:** Gwasanaethau Disgyblion
**Ein cyf:**
**Eich cyf:**

**Dyddiad**: 30 Medi 2024

**I: Rhieni/gofalwyr disgyblion sydd ym Mlwyddyn 6**

Annwyl riant/gofalwr

**Derbyniad i ysgol uwchradd - Blwyddyn 7, Medi 2025**

Mae'r llythyr hwn yn cynnwys gwybodaeth bwysig i rieni a gofalwyr pob disgybl sydd ym mlwyddyn 6 yr ysgol gynradd ar hyn o bryd.

Os yw eich plentyn i fod i drosglwyddo o ysgol gynradd i Flwyddyn 7 mewn ysgol uwchradd ym mis Medi 2025, mae'n **rhaid** i chi gwblhau cais derbyn i ysgol.

Gellwch wneud cais ar-lein. Os ydych eisoes wedi ymuno â Fy Nghyfrif ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSP), bydd angen i chi fewngofnodi ac wedyn gellwch gwblhau cais am le mewn ysgol uwchradd ar-lein.

Os nad ydych eisoes wedi llofnodi ar gyfer Fy Nghyfrif, gellwch greu eich cyfrif o wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Y cyfan sydd arnoch ei angen yw cyfeiriad e-bost.

Mae'n gyflym ac yn hawdd gwneud cais am le ym Mlwyddyn 7 mewn ysgol uwchradd drwy Fy Nghyfrif a gellwch gael tawelwch meddwl, gan wybod bod eich cais wedi dod i law oherwydd, unwaith y byddwch wedi cyflwyno'r cais, bydd hyn yn cael ei nodi yn y crynodeb o wybodaeth yn Fy Nghyfrif.

Mae'r cais ar-lein yn gweithio yr un mor dda ar gyfrifiadur personol, dyfais llechen neu ffôn symudol.

Cyn i chi gwblhau cais, darllenwch y dogfennau, os gwelwch yn dda, ar y wefan: www.bridgend.gov.uk/derbyniadauiysgolion

Mae'r ffurflen gais hefyd ar gael mewn copi caled hefyd os gofynnwch, naill ai gan eich ysgol leol neu gan y cyngor, ar y rhif ffôn 01656 642622.

Bydd y ffurflen gais ar-lein ar gael drwy Fy Nghyfrif o ddydd Llun, 14 Hydref 2024 am 10am. Nodwch, os gwelwch yn dda, mai'r dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau wedi eu cwblhau yw **dydd Gwener**, **17 Ionawr 2025 am 4pm.** Gall methu â chyflwyno cais erbyn y dyddiad ac amser hwn arwain at wrthod lle i'ch plentyn yn yr ysgol o'ch dewis chi.

Mae gan bob rhiant/gofalwr yr hawl i fynegi dewis o ran yr ysgol y mae'n dymuno i'w blentyn ei mynychu. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae rhieni/gofalwyr yn hapus i ddewis eu hysgol addas agosaf (ar gyfer ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg, a adwaenir hefyd fel ysgol y dalgylch). Os byddwch yn llwyddiannus wrth wneud cais am le mewn ysgol nad yw'n ysgol addas agosaf eich plentyn, **ni fydd** y cyngor fel rheol yn darparu cludiant am ddim, waeth beth fo'r pellter o'r cartref i'r ysgol. Mae'r Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol/Coleg ar gael oddi wrth:
www.bridgend.gov.uk/cy/preswylwyr/ysgolion-ac-addysg/trafnidiaeth-i-ysgol-neu-goleg/

**Argymhellir yn gryf eich bod yn enwi ysgol arall fel eich ail ddewis o ysgol.** Gall hon fod yn ysgol addas agosaf ar gyfer eich plentyn neu ysgol arall. **Nid yw cyfyngu eich dewis i un ysgol yn unig yn gwella eich gobeithion o ennill lle i'ch plentyn yn yr ysgol honno.** Nodwch nad oes hawl awtomatig i ddisgyblion, sydd â brodyr a chwiorydd mewn ysgol, gael lle yn yr ysgol honno.

Os bydd ysgol yn derbyn gormod o geisiadau, hynny yw, os yw'r galw am leoedd yn fwy na'r nifer o leoedd sydd ar gael, bydd y cyngor yn defnyddio ei feini prawf gormod o alw i ddyrannu'r lleoedd sydd ar gael. Mae Polisi Derbyn i Ysgolion y Cyngor 2025-2026 yn nodi'r rhestr lawn o feini prawf ar gyfer gormod o alw.

Mae'n rhaid i bob rhiant/gofalwr, sy'n gwneud cais am le Blwyddyn 7 i blentyn ar gyfer Medi 2025, gofnodi ar y ffurflen gais y cyfeiriad y mae ei blentyn yn preswylio ynddo fel arfer ar hyn o bryd.

Wrth brosesu'r cais, bydd y cyngor yn gwirio man preswyl arferol y plentyn yn erbyn y cofnodion a gedwir gan ysgol y plentyn (os yw'n berthnasol). At hynny, caiff cofnodion treth gyngor yr ymgeisydd eu gwirio.

Os nad yw'r ymgeisydd wedi cael ei gofrestru ar gyfer y dreth gyngor yn y cyfeiriad preswylio arferol a gofnodwyd yn y ffurflen gais, **rhaid** i'r ymgeisydd ddarparu dogfennaeth **gyda'r** ffurflen gais sy'n tystio i'r man lle mae'r plentyn yn preswylio fel arfer. Os na fydd y cyngor yn fodlon ar unrhyw dystiolaeth y bydd yr ymgeisydd wedi ei darparu ac os bydd amheuaeth yn dal i fod ynghylch preswylfa arferol y plentyn, bydd y cyngor yn cadw'r hawl i gynnal gwiriadau pellach a/neu ofyn am gadarnhad pellach gan yr ymgeisydd. Pwrpas hyn yw cynorthwyo i atal a chanfod twyll cyfeiriadau, sy'n ceisio cael mantais annheg yn y system o wneud cais am ysgol.

Corff llywodraethu Ysgol Uwchradd Gatholig yr Archesgob McGrath yw'r awdurdod derbyn sy'n gyfrifol am yr holl drefniadau derbyn ar gyfer yr ysgol honno. Felly, os ydych yn dymuno gwneud cais am le yn yr ysgol honno, bydd angen i chi gysylltu â'r ysgol yn uniongyrchol. Mae'r meini prawf derbyn ar gyfer Ysgol Uwchradd Gatholig yr Archesgob McGrath yn wahanol i'r meini prawf ar gyfer yr ysgolion uwchradd eraill ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Os ydych chi'n ystyried gwneud cais am le mewn ysgol uwchradd mewn awdurdod lleol arall (er enghraifft, yn Rhondda Cynon Taf) mae'n rhaid i chi wneud yn siŵr eich bod yn deall yn llawn beth yw goblygiadau gwneud hynny. Er y gall rhieni/gofalwyr fynegi dewis i wneud cais i'w plentyn fynychu unrhyw ysgol, mae yna oblygiadau o ran polisi yn aml mewn gwneud

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend County Borough Council

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

hynny, yn enwedig a fydd cludiant ysgol i'r ysgol honno'n cael ei anrhydeddu gan naill ai CBSP neu'r cyngor arall. Cyfrifoldeb rhieni/gofalwyr yw canfod a yw eu plentyn yn gymwys i gael cludiant ysgol cyn gwneud cais am le yn unrhyw ysgol.

Mae copi o brospectws 'Dechrau yn yr Ysgol' y Cyngor 2025-2026, sy'n amlinellu'r polisi derbyn ac yn rhoi gwybodaeth arall ynglŷn â'r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer plant a rhieni/gofalwyr, ar gael o www.bridgend.gov.uk/derbyniadauiysgolion neu, fel arall, ffoniwch 01656 642622, os gwelwch yn dda, i ofyn am gopi caled.

Mae'r polisïau derbyn i ysgolion a phrosbectysau dechrau ysgol ar cynghorau eraill ar gael ar wefan eu cyngor.

Os oes arnoch eisiau rhagor o wybodaeth benodol ynghylch y broses dderbyn, anfonwch e-bost, os gwelwch yn dda, i pupilservices@bridgend.gov.uk

Yn gywir

R. J. D

Robin Davies
Rheolwr Grŵp (Strategaeth, Perfformiad a Chymorth)

Ffôn/Tel: 01656 643643 Facs/Fax: 01656 668126 Ebost/Email: talktous@bridgend.gov.uk
Negeseuon SMS/ SMS Messaging: 07581 157014 Twitter@bridgendCBC Gwefan/Website: www.bridgend.gov.uk
Cyfnewid testun: Rhowch 18001 o flaen unrhyw un o'n rhifau ffon ar gyfer y gwasanaeth trosglwyddo testun
Text relay: Put 18001 before any of our phone numbers for the text relay service
Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich dewis iaith.
We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend County Borough Council

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

**Education, Early Years and Young People**
**Direct line:** 01656 642622
**Ask for:** Pupil Services
**Our ref:**
**Your ref:**

**Date**: 30 September 2024

To: Parents/carers of current Year 6 pupils

Dear parent/carer

**Admission to secondary school - Year 7, September 2025**

This letter contains important information for parents and carers of **all** pupils currently in Year 6 of primary school.

If your child is due to transfer from a primary school to Year 7 at a secondary school in September 2025, you **must** complete a school admission application.

You are able to apply online. If you have already signed up to 'My Account' on the Bridgend County Borough Council (BCBC) website, you will need to log in and you can then complete an online application for a secondary school place.

If you have not already signed up to My Account, you can create your account from the Bridgend County Borough Council website. All you need is an email address.

It is quick and easy to apply for a Year 7 secondary school place through My Account and you can have peace of mind knowing that your application has been received because once you have submitted the application, this will be indicated in your My Account summary information.

The online application works equally well on PC, tablet device or mobile phone.

Before you complete an application, please read the documents on the website: www.bridgend.gov.uk/schooladmissions

The application form is also available as a hardcopy upon request, either from your local school or from the council on telephone number 01656 642622.

The online application will be available through My Account from Monday, 14 October 2024 at 10am. Please note that the deadline date for completed applications is **Friday, 17 January 2025 at 4pm.** Failure to submit an application by this date and time may result in your child being refused a place at the school of your choice.

**Ffôn/Tel: 01656 643643** **Facs/Fax: 01656 668126** **Ebost/Email: talktous@bridgend.gov.uk**
**Negeseuon SMS/ SMS Messaging: 07581 157014** **Twitter@bridgendCBC** **Gwefan/Website: www.bridgend.gov.uk**

All parents/carers have the right to express a preference for the school they wish their child to attend. In most cases, parents/carers are happy to choose their nearest suitable school (for English-medium secondary schools, this is also known as the catchment school). If you are successful in applying for a place at a school that is not your child's nearest suitable school, the Council **will not** normally provide free transport, irrespective of the distance from home to the school. The Home-to-School/College Transport Policy is available from: www.bridgend.gov.uk/schooltransport

Where a school is oversubscribed, that is, the demand for places is greater than the number of places available, the council will apply its oversubscription criteria to allocate the places available. The council's School Admissions Policy 2025-2026 identifies the full list of oversubscription criteria. **It is strongly recommended that you select another school as your second preference school.** This can be the nearest suitable school for your child or another school. **Limiting your choice to just one school does not improve your prospects of gaining a place for your child in that school.** Please note that there is no automatic right for pupils with siblings in a school to be allocated a place at that school.

Every parent/carer who is applying for a Year 7 place for September 2025 for a child must record the current address at which their child is ordinarily resident on the application form. When processing the application, the council will check the child's place of ordinary residence against the records held by the child's school (if applicable). In addition, council tax records for the applicant will be checked.

If an applicant is not registered for council tax at the address of ordinary residence recorded in the application form, the applicant **must** supply documentation **with** the application form that evidences the child's place of ordinary residence. If the council is not satisfied by any evidence provided by the applicant and there is ongoing doubt about the child's place of ordinary residence, the council reserves the right to undertake further checks and/or seek further verification from the applicant. This will be to assist in the prevention and detection of address fraud for the purpose of gaining an unfair advantage in the school application system.

The governing body of Archbishop McGrath Catholic High School is the admission authority with responsibility for all admission arrangements for that school. Therefore, if you wish to apply for a place at that school, you will need to contact the school directly. The admission criteria for Archbishop McGrath Catholic High School are different from the criteria for the other secondary schools in Bridgend.

If you are considering applying for a secondary school in another council's area (for example, in Rhondda Cynon Taff) you must ensure that you fully understand the implications of doing so. Although parents/carers may express a preference to apply for their child to attend any school, there are often policy implications in doing so, in particular whether school transport to that school will be provided by either BCBC or the other council. It is the responsibility of parents/carers to check their child's eligibility for school transport prior to applying for any school.

The council's 'Starting School' Prospectus 2025-2026, which outlines the admissions policy and provides other information in relation to the services provided for children and parents/carers, is available on www.bridgend.gov.uk/schooladmissions or, alternatively, please telephone 01656 642622 to request a hardcopy.

The school admission policies and starting school prospectuses for other councils are available on their council website.

If you should require further, specific information in relation to the admissions process, please email pupilservices@bridgend.gov.uk

Yours faithfully

Robin Davies
Group Manager (Strategy, Performance and Support)